**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod rhithiol ar ddydd Mercher, 7 Hydref 2020.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarlledaid o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams.<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Nicola Roberts |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Llinos M Huws, Aled M Jones, Bryan Owen, Margaret M Roberts, Dafydd R Thomas. |

1.00 o'r gloch - 2.30 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Medi, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni chynhaliwyd yr un ymweliad. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cafodd sylwadau eu hanfon mewn perthynas â cheisiadau 12.3 a 12.6 ac fe'i darllenwyd yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 19C1231 – Cais amlinellol ar gyfer codi 32 annedd marchnad a 4 annedd fforddiadwy, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr, darparu man chwarae a mannau agored ynghyd â manylion llawn y fynedfa a’r gosodiad ar dir ger Stad Cae Rhos, Ffordd Porthdafach, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio gwneud penderfyniad ar y cais am y rhesymau a nodwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A’R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |

| | | |
|---|---|---|
| PENDERFYNIAD | **12.1** | **FPL/2019/217 – Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Stad Craig y Don a Cherry Tree Close, Benllech.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio gwneud penderfyniad ar y cais am y rhesymau a nodwyd.** |
| | **12.2** | **DEM/2020/4 – Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer dymchwel y cyn ysgol yn Ysgol Gynradd Niwbwrch, Niwbwrch.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatau'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac yn amodol ar dderbyn y wybodaeth ecolegol berthnasol.** |
| | **12.3** | **47C151B – Cais llawn ar gyfer codi chwech o lifoleuadau 5 medr o uchder i'r 'manege' yn Ty'n Ffordd, Elim**<br><br>**PENDERFYNWD gwrthod y cais yn groes i argymhellion y Swyddog oherwydd yr effeithiau ar amwynderau trigolion lleol a'r effaith andwyol ar yr awyr dywyll.**<br><br>**(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatau'r cais).** |
| | **12.4** | **FPL/2020/92 – Cais llawn ar gyfer creu 2 lle parcio yn 3 Bronallt, Ffordd Cambria, Porthaethwy.**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle ar gais yr Aelod Lleol.** |
| | **12.5** | **FPL/2020/45 – Cais llawn am gynyddu nifer y carafanau teithiol (23 yn ychwanegol) ar y safle o 15 i 38 yn Talli Ho, Prys Iorwerth Uchaf, Bethel, Bodorgan.** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWD gwrthod y cais yn groes i argymhellion y Swyddog oherwydd y gorddatblygiad o ran safleoedd carafanau yn yr ardal a gan ei fod yn groes i egwyddorion datblygiad cynaliadwy.**<br><br>**(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatau'r cais).**<br><br>**12.6 HHP/2020/168 – Cais llawn ar gyfer dymchel yr adeilad allanol ynghyd a chodi anecs yn Tyn Lôn, Llaneilian.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatau'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrir o fewn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.7 MAO/2020/16 – Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatád cynllunio 34C304K/1/EIA/ECON er mwyn galleuo cychwyn gwaith ar blot 2 ar dir Coleg Menai, Llangefni**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatau'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrir o fewn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.8 FPL/2020/105 – Cais llawn ar gyfer creu man parcio newydd yn Ffordd Tudur, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatau'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrir o fewn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |